Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Adran Achosion Brys (Oedolion), Ysbyty Treforys

## Dyddiad y gweithgarwch: 17 Mawrth 2021

Dyddiad cyhoeddi: 21 Mai 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80195-401-3

© Hawlfraint y Goron 2021

# Cofnod o'r Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Treforys fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Ysbyty Treforys yw un o'r ysbytai mwyaf yng Nghymru, gyda thua 720 o welyau. Dyma'r ysbyty trydyddol acíwt rhanbarthol ar gyfer de-orllewin Cymru, ac mae'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau arbenigol, gan gynnwys trawma ac orthopedeg, meddygaeth arennol, niwroleg, llawdriniaeth y geg a genol-wynebol, yn ogystal â bod yn gartref Ganolfan Cymru ar gyfer Gwefus a Thaflod Hollt.

Mae gan Ysbyty Treforys adran achosion brys fawr. Lleihaodd nifer y derbyniadau i'r adran yn ystod cyfnod cynnar pandemig COVID-19, er eu bod wedi cynyddu i lefelau tebyg i'r hyn a welwyd cyn y pandemig.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl, ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â Phrif Nyrs, Metron a Meddyg Ymgynghorol ym maes Meddygaeth Bediatrig Frys yr Adran Achosion Brys ar 17 Mawrth 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am y lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut rydych yn sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau ac unrhyw achosion o friwiau pwyso neu niwed i'r meinwe. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i gael gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym fod newidiadau wedi'u gwneud i amgylchedd yr adran achosion brys mewn ymateb i'r pandemig. Cyflwynwyd system unffordd a pharthau coch risg uchel er mwyn lleihau achosion o heintio a chroes-halogi. Dywedodd y rheolwyr wrthym fod hyn wedi'i gefnogi gan gynllun cadarn i ddarparu cyfarpar diogelu personol (PPE) i'r staff a'u hyfforddi i'w ddefnyddio. Dywedwyd wrthym y gallai'r staff gael gafael ar fwndeli parod o PPE mewn blychau cyfleus. Roedd y blychau hyn yn rhoi'r PPE cywir i ddiogelu'r staff a'u cadw'n iach. Rhoddwyd cymhorthion darluniadol yn amlinellu'r canllawiau ar PPE ac atal haint i'r staff ar ddechrau'r pandemig, a chawsant eu gosod o amgylch yr adran er mwyn annog dysgu. Cafodd yr ystafell pwysedd negyddol ei dynodi'n ardal ar gyfer achosion a gadarnhawyd o COVID-19, a chafodd yr ardal Gwerthuso a Dechrau Triniaeth yn Gyflym (REACT) ei defnyddio ar gyfer achosion a amheuwyd ac a gadarnhawyd o COVID-19 ar droliau gan gadw pellter cymdeithasol. Er mwyn lleihau'r risg o groes-halogi ymhellach, rhoddwyd peiriannau arsylwi ychwanegol i'r adran fel bod llai o angen i symud dyfeisiau rhwng cleifion.

Dywedwyd wrthym fod adnoddau nyrsio ychwanegol wedi'u dyrannu i'r ardal brysbennu mewn ymateb i'r pandemig, er mwyn sicrhau bod pob claf a dderbyniwyd i'r adran yn cael ei swabio wrth gyrraedd ac yn cael y gwiriadau priodol i ganfod ei statws o ran COVID-19. Dywedodd y rheolwyr wrthym fod nifer y seddau yn yr ystafell aros wedi'u lleihau er mwyn galluogi pobl i gadw pellter cymdeithasol a chael sgyrsiau tawelwch. Mae cynorthwywyr gofal iechyd yn darparu hanfodion gofal i gleifion drwy ymateb i'w hanghenion, a'u diwallu. Mae hyn yn cynnwys darparu dŵr potel a bwyd os bydd cleifion yn llwglyd. Dywedodd y rheolwyr wrthym fod y bwrdd iechyd wedi comisiynu gwasanaethau'r Groes Goch Brydeinig i ddarparu lluniaeth a byrbrydau i gleifion yn ardaloedd aros yr ardaloedd asesu. Mae'r adran hefyd wedi elwa ar glerc integredig, sydd wedi gwella'r cyfathrebu rhwng adrannau nyrsio ac adrannau meddygol.

Dywedodd y rheolwyr wrthym eu bod wedi creu dwy rôl ychwanegol yn ddiweddar i weithredu fel cydgysylltwyr llif rhwng yr adran achosion brys a'r gwasanaeth ambiwlans. Mae'r cydgysylltwyr llif yn gyfrifol am fonitro a datblygu arferion diogel ac effeithiol mewn perthynas â throsglwyddo cleifion o ambiwlansys i'r adran achosion brys. Dywedwyd wrthym y caiff effeithiolrwydd a llwyddiant y rolau newydd eu mesur yn ôl ansawdd profiad cleifion.

Lle y bo'n bosibl, gofynnir i berthnasau a ffrindiau beidio â mynd i mewn i'r adran er mwyn diogelu'r cleifion. Fodd bynnag, cadarnhaodd y rheolwyr y caniateir i aelod dynodedig o'r teulu ddod gyda'r claf o dan amgylchiadau arbennig a phan fo hynny'n briodol. Ar yr achlysuron hyn, mae'n ofynnol i'r aelod o'r teulu wisgo PPE priodol, a chaiff ei atgoffa am bwysigrwydd hylendid dwylo a chadw pellter cymdeithasol. Dywedwyd wrthym y gall cleifion ar eu pen eu hunain ofyn am gymorth gan un o nyrsys yr ystafell aros os byddant yn dymuno cysylltu â theulu a ffrindiau.

Dywedwyd wrthym fod nifer y bobl yn yr adran achosion brys a'r ysbyty yn gyffredinol wedi'u lleihau ar ddechrau'r pandemig. Cadarnhaodd y rheolwyr fod hyn wedi lleihau'r oedi cyn rhoi gofal i gleifion, wedi gwella profiad cleifion ac wedi sicrhau llif cleifion mwy effeithiol wrth i gleifion gael eu trosglwyddo o'r adran i'r ward briodol neu eu rhyddhau o'r ysbyty.

Dywedwyd wrthym y caiff digwyddiadau, cwynion ac adborth gan gleifion eu hadolygu gan grwpiau llywodraethu clinigol, mewn cyfarfodydd bwrdd ac mewn cyfarfodydd ansawdd a diogelwch. Mae digwyddiadau diogelwch cleifion yn destun gwaith craffu ac ymchwil gan y cyfarwyddwr clinigol a phennaeth nyrsio.

Dywedwyd wrthym fod yr ysbyty wedi darparu ardal dihalogi i ambiwlansys ar safle'r ysbyty. Mae hyn yn galluogi staff yr ambiwlansys i lanhau'r ambiwlansys a'r dyfeisiau cyn gadael yr ysbyty, gyda'r nod o atal haint a lleihau'r risg o groes-halogi.

Dywedwyd wrthym fod gan yr adran hyb diogelu lle y gall staff gael gafael ar gyngor a chymorth arbenigol i bobl agored i niwed. Dywedodd y rheolwyr wrthym fod ystafell aml-ffydd ar safle'r ysbyty. Mae mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith. At hynny, gellir cysylltu â'r caplan dros y ffôn.

Dywedwyd wrthym y gall yr adran gael cymorth gan staff diogelwch ar y safle a'r heddlu lleol. Mae gan safle'r ysbyty swyddog cyswllt yr heddlu dynodedig hefyd. Os oes angen, gall yr adran achosion brys gloi pob prif bwynt mynediad er mwyn diogelu'r cleifion a'r staff.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisïau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg. Gwnaethom adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym fod gorsafoedd golchi dwylo a diheintio ar gael ym mhob rhan o'r adran, a bod yr arwyddion yn glir ac yn ddwyieithog.

Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau hylendid dwylo, a oedd yn dangos bod y staff yn golchi eu dwylo ac yn defnyddio hylif diheintio dwylo ag alcohol. Dywedwyd wrthym fod y staff wedi cael hyfforddiant wyneb yn wyneb ar hylendid a defnyddio PPE. Dangosodd y cofnodion fod y staff wedi cael prawf ffitio ar gyfer masg. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r saff ar gontractau parhaol a bod y rhan fwyaf o'r staff asiantaeth a banc rheolaidd wedi cael prawf ffitio ar gyfer masg FFP3.[1] Mae rhai staff wedi cael eu masg eu hunain. Eu cyfrifoldeb nhw yw glanhau'r masg a newid yr hidlyddion ar yr adeg briodol. Dywedwyd wrthym ei bod yn ofynnol i'r staff gadw pellter cymdeithasol mewn ystafelloedd staff a bod addasiadau wedi'u gwneud i osgoi gormod o bobl yn yr ardaloedd hyn.

Dywedwyd wrthym fod lefel y glanhau wedi cynyddu ers dechrau'r pandemig, a bod oriau'r gwasanaeth wedi cynyddu i 24 awr y dydd. Caiff pob cilfan ei lanhau rhwng pob claf, ac yn amlach os oes angen.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Nododd y datganiad o berfformiad Rheoli Heintiau ar gyfer archwiliad Hanfodion Gofal[2] ar hap, dyddiedig 20 i 21 Ionawr, fod y lefel gydymffurfio gyffredinol a lefel goddefgarwch y bwrdd iechyd fel a ganlyn:

- Cydymffurfiaeth â threfniadau rheoli heintiau – 90% (lefel goddefgarwch y Bwrdd Iechyd – 95%)
- Pum cam hylendid dwylo Sefydliad Iechyd y Byd[3] – 91% (lefel goddefgarwch y Bwrdd Iechyd – 100%)

Aeth darn ychwanegol o dystiolaeth, sef datganiad gwasanaeth rheoli heintiau'r Grŵp Gwasanaethau Ysbytai, dyddiedig mis Ionawr 2021, yn groes i'r wybodaeth hon, gan nodi lefelau gwahanol o gydymffurfiaeth, targedau cenedlaethol a goddefgarwch misol. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn cofnodi lefelau goddefgarwch yn gywir ac yn gyson, ac yn amlinellu'r camau a gymerwyd neu unrhyw gynnydd a wnaed i gyrraedd lefelau goddefgarwch y bwrdd iechyd a lefelau cenedlaethol.

Gwnaethom adolygu'r archwiliadau a gwblhawyd gan staff y ward, a oedd yn amlinellu cydymffurfiaeth y staff â'r gofynion i fod yn noeth o dan y penelin a'r angen am hylendid dwylo trylwyr a phriodol. Dangosodd yr archwiliadau lefel uchel o gydymffurfiaeth ymhlith y staff, ond nododd un archwiliad, dyddiedig 5 Chwefror 2021, nad oedd un meddyg nac un nyrs yn cydymffurfio â'r gofyniad i fod yn noeth o dan y penelin. Nid oedd yr adroddiad archwilio yn cynnwys unrhyw ymateb gan y rheolwyr i'r mater hwn na'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag ef a darparu hyfforddiant neu ddysgu. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff camau eu cymryd i atgoffa'r staff o'r angen i fod yn noeth o dan y penelin ac i ddarparu hyfforddiant neu ddysgu fel y bo'n briodol.

[1] Mae masgiau FFP3 yn diogelu rhag heintiau feirysol a bacterol a drosglwyddir drwy'r awyr.
[2] Hanfodion Gofal http://www.wales.nhs.uk/documents/booklet-w.pdf
[3] Sefydliad Iechyd y Byd, 5 Moments of hand hygiene https://www.who.int/gpsc/tools/Five_moments/en/

Cwblhaodd y Nyrsys Atal a Rheoli Heintiau adnodd archwilio Rhagofalon Rheoli Heintiau Safonol ar 5 Chwefror 2021 ar gyfer yr adran achosion brys. [4] Er y cafodd lefel uchel o gydymffurfiaeth ei nodi, ni roddwyd unrhyw gyd-destun, manylion na sylwadau ar wahân i'r mater a gyfeiriwyd i'r adran Ystadau. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y rhoddir manylion i gadarnhau amser cwblhau'r archwiliad, yr ardaloedd a'r cyfarpar a archwiliwyd, nifer y staff yr arsylwyd arnynt, arferion da, unrhyw faterion a nodwyd a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion hynny.

Cawsom gopi o daenlen rheoli heintiau ar gyfer mis Ionawr a mis Chwefror 2021. Roedd y wybodaeth a roddwyd yn dangos bod yr adran yn cydymffurfio'n llwyr â'r gofynion o ran rheoli heintiau ym mis Ionawr 2021. Fodd bynnag, gostyngodd y gyfradd gydymffurfio i 81% ym mis Chwefror 2021 yn sgil materion a nodwyd yn yr amgylchedd. Ni roddwyd unrhyw wybodaeth bellach i ddangos pa faterion a godwyd nac, yn wir, a gafodd unrhyw gamau unioni eu cymryd. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob canlyniad ei ategu gan dystiolaeth a'r camau y bwriedir eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion sy'n codi.

Nododd archwiliad rheoli heintiau amgylcheddol ychwanegol, dyddiedig 12 Chwefror 2021, gyfres o faterion lle nad oedd yr adran achosion brys yn cydymffurfio â'r gofynion o ran rheoli heintiau neu lle roedd ond yn cydymffurfio'n rhannol â'r gofynion hynny. Nid oedd yr archwiliad yn nodi'r sgôr gydymffurfio gyffredinol nac yn dogfennu unrhyw gamau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff canlyniad archwiliadau ac unrhyw gamau gweithredu gofynnol eu dogfennu'n gywir ac yn llawn.

Cawsom dystiolaeth, dyddiedig 15 Ionawr 2021 a 12, 15 a 21 Chwefror 2021, a oedd yn dogfennu'r broses o asesu cleifion am friwiau pwyso a niwed i feinweoedd. Er bod y dystiolaeth ar 15 Ionawr a 15 a 21 Chwefror yn cadarnhau bod y staff yn cwblhau asesiadau Waterlow, [5]dangosodd y dystiolaeth dyddiedig 12 Chwefror nad oedd y staff yn cwblhau'r asesiadau yn llawn. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gofyniad i asesu cleifion am friwiau pwyso a niwed i feinweoedd a dogfennu canlyniad yr asesiad.

## Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r ward, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisïau (megis uwchgyfeirio).

[4] Rhagofalon Rheoli Heintiau Safonol https://phw.nhs.wales/services-and-teams/harp/infection-prevention-and-control/nipcm/chapter-1-standard-infection-control-precautions-sicps/

[5] Mae asesiadau Waterlow yn adnodd asesu risg syml sy'n pennu a yw claf yn wynebu risg o ddatblygu briwiau pwyso.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom dystiolaeth o'r polisïau, y gweithdrefnau a'r gweithdrefnau safonol canlynol, a oedd yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed mewn ymateb i bandemig COVID-19:

- Rheoli brigiadau ac achosion o'r haint
- Llawlyfr Cenedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Atal a Rheoli Heintiau
- Cynllun ar gyfer brigiadau o achosion o Glefydau Trosglwyddadwy
- Pecyn adnoddau COVID-19
- Polisi Atal a Rheoli Heintiau
- Canllawiau COVID-19 ar atal a rheoli heintiau mewn lleoliadau gofal iechyd
- Fframwaith a chynllun tactegol ar gyfer y pandemig
- Parodrwydd am argyfyngau Ymarfer Corvus
- Sut i swabio ar gyfer COVID-19
- Canllaw clinigol ar reoli cleifion yr adran achosion brys
- Protocol uwchgyfeirio 4 awr yr adran achosion brys

Dywedodd y rheolwyr wrthym y gallant gael gafael ar systemau ehangach y grŵp ysbytai i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a chymryd rhan mewn cyfarfodydd staff dyddiol ar y safle. Gall yr adran wneud cais am gymorth os na fydd lefelau staffio yn cyrraedd y safonau gofynnol i ddarparu gwasanaethau diogel. Dywedwyd wrthym fod yr adran achosion brys wedi defnyddio cyfanswm o 45 awr o amser nyrsio a adleolwyd yn ystod cyfnod y rhestr ddyletswyddau diwethaf.

Dywedwyd wrthym fod cydgysylltydd y rota yn rheoli bylchau yn y rota yn weithredol ac yn uwchygyfeirio pryderon. Caiff bylchau mewn sifftiau staff meddygol eu llenwi gan ddefnyddio staff locwm dibynadwy, ac mae gan yr adran gynllun dilyniant ar gyfer olrhain ymddeoliadau a darpar staff meddygol iau mewn swyddi parhaol yn y dyfodol. Cadarnhaodd y rheolwyr y caiff staff meddygol eu neilltuo i oruchwylydd ac y gallant fynychu cyfarfodydd un i un rhithwir. Dywedwyd wrthym fod meddygon ymgynghorol yn cyfarfod yn wythnosol a bod gan nifer o feddygon ymgynghorol bolisi drws agored er mwyn hwyluso cyfathrebu a chynigion o gymorth rhyngddyn nhw eu hunain a staff meddygol. Mae trefniadau wedi'u gwneud i'r staff gymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol ar-lein a noson wobrwyo adrannol. Dywedodd y Brif Nyrs wrthym fod y staff nyrsio'n cael archwiliadau llesiant wrth drosglwyddo pob sifft, a'u bod yn cael eu hannog i siarad ag uwch-nyrs os bydd angen cyngor neu gymorth arnynt. Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol hefyd fod yn rhaid iddynt roi gwybod i'r rheolwyr os byddant yn anhwylus, a mynd adre'n syth. Mae'n ofynnol iddynt gael prawf COVID-19 PCR a chysylltu â'r Adran Iechyd Galwedigaethol.

Dywedwyd wrthym y caiff y staff nyrsio a gyflogir yn yr adran eu rhannu'n Dimau wedi'u harwain a'u rheoli gan Nyrs Band 7 a'u cefnogi gan ddwy nyrs Band 6. Cadarnhaodd y brif nyrs y caiff ei chefnogi gan y fetron, a'i bod yn cyfarfod â hi'n rheolaidd. Mewn ymateb i'r pandemig, roedd nifer y nyrsys cymwysedig a chynorthwywyr gofal iechyd sy'n ofynnol ar bob sifft wedi cynyddu i 21:9, yn y drefn honno. Dywedodd y Pediatregydd Ymgynghorol wrthym

fod mwy o feddygon iau yn yr adran. Caiff hyn ei ategu gan gynllun wrth gefn uwchgyfeirio rotas sy'n sicrhau bod meddygon ymgynghorol ar gael pan fydd absenoldebau.

Dywedwyd wrthym hefyd fod Deoniaeth Cymru[6] wedi cytuno i gynyddu nifer y meddygon ar raddfa ganol yn yr adran achosion brys, ond nid yw'r swyddi hyn wedi'u llenwi. Llwyddodd y tîm meddygol i recriwtio pedwar meddyg ymgynghorol ers arolygiad diwethaf AGIC ym mis Ionawr 2020.

Dywedwyd wrthym y caiff absenoldebau staff eu rheoli yn unol â pholisi'r Bwrdd Iechyd, a bod y rheolwyr yn gweithio'n galed gyda staff i'w helpu i ddychwelyd i'r gwaith. Gwelsom dystiolaeth o adroddiadau ar salwch, a oedd yn dangos cyfradd absenoldeb bresennol o 7.9% yn y gweithlu nyrsio yn ystod cyfnod y pandemig. Cadarnhaodd y rheolwyr fod yr addasiadau a wnaed yn yr adran ynghyd â chydweithrediad y staff wedi helpu i leihau trosglwyddiad feirws COVID-19 yn yr adran.

Dywedodd y fetron wrthym fod trefniadau ar waith i sicrhau y gallai'r staff hynny yr ystyriwyd eu bod yn agored i niwed yn glinigol weithio gartref. Roeddent wedi cael gliniaduron ac wedi cael dyletswyddau a oedd yn ymgorffori llesiant staff a hyfforddiant ar Reoli Trawma a Risg (TRiM)[7] and REACT[8].

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Fel rhan o Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau y GIG[9], dylai staff gweinyddol, clerigol a nyrsio gael adolygiad arfarnu perfformiad a datblygu blynyddol. Mae'r broses hon yn adolygu dysgu, anghenion datblygu a datblygiad cyflog staff. Dangosodd cofnodion gydymffurfiaeth wael â'r gofyniad i gynnal adolygiad blynyddol ar gyfer staff yn y Bandiau canlynol:

- Band 7 – 50%
- Band 6 – 53%
- Band 5 – 68%
- Band 6/7 (Ymarferwyr Nyrsio Brys) – 33%.

Roedd 84% o'r staff Band 2 a Band 3 wedi cael eu hadolygiadau blynyddol. Dywedwyd wrthym nad oedd arfarniadau blynyddol wedi'u cynnal yn sgil y pandemig. Fodd bynnag, cadarnhaodd y rheolwyr fod cynllun i drefnu adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygu â'r staff, yn ogystal â chynnig amser i ffwrdd yn lle oriau a weithiwyd y tu hwnt i oriau contract. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y staff arfarniad amserol a chadarnhau sut mae'r adran achosion brys yn bwriadu gwella cydymffurfiaeth.

[6] Uned academaidd yw Deoniaeth Cymru, sy'n cynnig cyfleusterau ôl-raddedig a chymorth addysgol i feddygon a deintyddion.
[7] System asesu risg a chymorth parhaus a gynhelir gan gymheiriaid yw hyfforddiant TRiM, er mwyn helpu staff i reoli digwyddiadau trawmatig.
[8] Dull a thechneg hyfforddi yw REACT, gynlluniwyd i gefnogi iechyd a lles meddyliol staff, eu timau a'u cymunedau
[9] Mae'r fframwaith gwybodaeth a sgiliau yn adnodd defnyddiol a ddefnyddir i nodi'r wybodaeth, y sgiliau, y dysgu a'r datblygiad sydd eu hangen ar staff i wneud eu gwaith.

Dywedwyd wrthym fod gan yr adran 17 o swyddi gwag ar gyfer nyrs gofrestredig Band 5 ac un swydd wag ar gyfer nyrs gofrestredig Band 3, ac, o ganlyniad, mae'r adran yn defnyddio niferoedd sylweddol o staff nyrsio asiantaeth a banc, sef tua 49% o'r gweithlu (30% asiantaeth a 19% banc). Cadarnhaodd y rheolwyr eu bod yn ceisio defnyddio'r un nyrsys asiantaeth a banc er mwyn sicrhau parhad gofal, yn ogystal â darparu'r hyfforddiant angenrheidiol iddynt ar brofion pwynt gofal a PPE. Dywedodd y rheolwyr wrthym y bu rhywfaint o recriwtio llwyddiannus ers arolygiad diwethaf AGIC, a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2020, ond bod lefel uchel o swyddi gwag o hyd, gan olygu bod yr adran yn cyhoeddi hysbyseb recriwtio gylchol bob rhyw ddeufis am bedair nyrs gymwysedig. O ystyried lefel uchel y swyddi gwag ar gyfer nyrsys cofrestredig, mae angen sicrwydd ar AGIC fod gan y Bwrdd Iechyd gynllun cadarn ar waith ar gyfer y gweithlu, sy'n cydnabod yr angen i recriwtio a chadw nyrsys yn yr adran achosion brys.

**Roedd angen sicrwydd uniongyrchol mewn perthynas â'r canlynol:**

Cyn y Gwiriad Ansawdd, gofynnodd AGIC am fanylion hyfforddiant gorfodol ac adrannol cyfredol a chydymffurfiaeth gysylltiedig.

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom nodi nifer o bryderon a godwyd fel rhan o'r adolygiad o gydymffurfiaeth â hyfforddiant. Ystyriodd AGIC y dystiolaeth hon ar y cyd â'r ymatebion llafar a roddwyd yng nghyfarfod y Gwiriad Ansawdd a thystiolaeth bellach a roddwyd yn dilyn yr alwad. Dangosodd y dystiolaeth gydymffurfiaeth wael â hyfforddiant gorfodol ac adrannol ar gyfer yr Adran Achosion Brys, ac ni roddodd sicrwydd i AGIC fod y staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol.

Cawsom dystiolaeth a oedd yn dangos y gydymffurfiaeth ganlynol â hyfforddiant gorfodol:

- Atal a Rheoli Heintiau (hyfforddiant gorfodol) – 9%
- Diogelu Oedolion – 12%
- Diogelu Plant – 32%
- Diogelwch Tân – 19%
- Symud a Chodi a Chario – 20%
- Dadebru – rhwng 0% a 25% (roddwyd sawl lefel o gydymffurfiaeth yn y pecyn tystiolaeth)

At hynny, cawsom dystiolaeth a oedd yn dangos y gydymffurfiaeth ganlynol â hyfforddiant adrannol yn y meysydd canlynol:

- Sepsis – 12%
- Meddyginiaeth Fewnwythiennol – 47%
- Golchi Dwylo – 16%
- Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) – 9%
- Y Ddeddf Galluedd Meddyliol – 13%

Dylid nodi bod AGIC wedi gofyn am sicrwydd gan y Bwrdd Iechyd y byddai'n gwella cydymffurfiaeth â hyfforddiant fel rhan o'r arolygiad a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2020. Rhoddodd y Bwrdd Iechyd sicrwydd yn y cynllun gwella y byddai mesurau'n cael eu rhoi ar waith i wella cydymffurfiaeth.

Ni all AGIC fod yn sicr bod systemau llywodraethu'r bwrdd iechyd yn darparu goruchwyliaeth ddigonol o'r mater hwn, a byddem yn gofyn iddo roi mesurau ar waith i wella cydymffurfiaeth yn ddi-oed.

Dywedwyd wrthym fod y rheolwyr wedi darparu rhywfaint o hyfforddiant wyneb yn wyneb a rhywfaint o hyfforddiant pwrpasol, a bod yr Addysgwr Clinigol yn trefnu hyfforddiant ychwanegol.

Gwelsom mai cyfradd gydymffurfiaeth y staff ar gyfer hyfforddiant ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth oedd 75%, ac mai'r gyfradd ar gyfer hyfforddiant ar Lywodraethu Gwybodaeth oedd 73%.

Mewn ymateb i'r llythyr yn gofyn am sicrwydd uniongyrchol, rhoddodd y bwrdd iechyd gyfres newydd o ffigurau hyfforddiant i ni. Dywedwyd wrthym fod y ffigurau hyfforddiant newydd wedi'u darparu'n uniongyrchol gan adran y Gweithlu a Gwybodaeth, ac roeddent yn nodi lefel well o gydymffurfiaeth. Cawsom sicrwydd y byddai cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn destun adolygiad lefel uchel chwarterol gan y Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Llywodraethu. At hynny, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad Cleifion Dros Dro fod adolygiad wedi'i gynnal i ganfod pam roedd gwybodaeth anghyflawn ac anghywir wedi'i rhoi.

Mae angen esboniad ar AGIC ynghylch pam y cawsom wybodaeth anghywir am gydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ac adrannol yn ystod yr arolygiad.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi’n glir sut yr eir i’r afael â’r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd yr eir i’r afael â’r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o’r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Gwasanaethau Oedolion yn Adran Achosion Brys Ysbyty Treforys

Dyddiad y gweithgarwch:17 Mawrth 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Nododd y datganiad o berfformiad Rheoli Heintiau ar gyfer archwiliad Hanfodion Gofal ar hap, dyddiedig 20 i 21 Ionawr, fod y lefel gydymffurfio gyffredinol a lefel goddefgarwch y bwrdd iechyd fel a ganlyn:<br>• Cydymffurfiaeth â threfniadau rheoli heintiau - 90% (lefel goddefgarwch y Bwrdd Iechyd - 95%)<br>• Pum cam hylendid dwylo Sefydliad Iechyd y Byd - 91% | Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi | Dyma'r paramedrau perfformiad presennol ar gyfer Rheoli Heintiau a fesurir yng Ngherdyn Perfformiad y Bwrdd Iechyd:<br>• Cydymffurfiaeth ag Archwiliad Rheoli Heintiau ar Hap (Targed Cenedlaethol o 95%)<br>• Archwiliadau Hylendid Dwylo - cydymffurfiaeth â Phum Cam Sefydliad Iechyd y Byd (Targed Cenedlaethol o 100%)<br><br>**Cam Gweithredu:**<br>1. Adolygu'r Templed ar gyfer Adroddiad ar Ansawdd a | Pennaeth Ansawdd a Diogelwch y | 1 Mehefin 2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | (lefel goddefgarwch y Bwrdd Iechyd – 100%)<br>Aeth darn ychwanegol o dystiolaeth, sef datganiad gwasanaeth rheoli heintiau'r Grŵp Gwasanaethau Ysbytai, dyddiedig mis Ionawr 2021, yn groes i'r wybodaeth hon, gan nodi lefelau gwahanol o gydymffurfiaeth, targedau cenedlaethol a goddefgarwch misol.<br><br>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn cofnodi lefelau goddefgarwch yn gywir ac yn gyson, ac yn amlinellu'r camau a gymerwyd neu unrhyw gynnydd a wnaed i gyrraedd lefelau goddefgarwch y bwrdd iechyd a thargedau cenedlaethol. | | Diogelwch, a chynnwys targedau a diffiniadau penodol ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad. Caiff adroddiadau a gwblhawyd eu defnyddio yng nghyfarfod Ansawdd a Diogelwch y Grŵp Gwasanaethau a'u cyflwyno i Grŵp Ansawdd a Diogelwch Treforys, yn unol â'r Rhaglen Waith Ansawdd a Diogelwch.<br><br>Rhannu adroddiad templed ag AGIC ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Grŵp Gwasanaethau Ysbytai yng Nghrŵp Ansawdd a Diogelwch Treforys | Grŵp Gwasanaethau<br><br>Pennaeth Ansawdd a Diogelwch y Grŵp Gwasanaethau | <br><br>1 Gorffennaf 2021 |
| 2 | Gwnaethom adolygu'r archwiliadau a gwblhawyd gan staff y ward, a oedd yn amlinellu cydymffurfiaeth y staff â'r gofynion i fod yn noeth o dan y penelin a'r angen am hylendid dwylo trylwyr a phriodol. Dangosodd yr archwiliadau lefel uchel o gydymffurfiaeth ymhlith y staff, ond nododd un archwiliad, | Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi | **Camau Gweithredu ar Unwaith**<br>1. Mae Metron yr Adran Achosion Brys wedi siarad â'r aelodau o'r staff y nodwyd nad oeddent yn cydymffurfio er mwyn eu hatgoffa o'r gofynion o ran rheoli heintiau a myfyrio arnynt.<br><br>**Camau Gweithredu Pellach:** | Metron yr Adran Achosion Brys<br><br>Cyfarwyddwyr | Cwblhawyd Mawrth 2021<br><br>Erbyn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | dyddiedig 5 Chwefror 2021, nad oedd un meddyg nac un nyrs yn cydymffurfio â'r gofyniad i fod yn noeth o dan y penelin. Nid oedd yr adroddiad archwilio yn cynnwys unrhyw ymateb gan y rheolwyr i'r mater hwn na'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag ef a darparu hyfforddiant neu ddysgu.<br><br>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff camau eu cymryd i atgoffa'r staff o'r angen i fod yn noeth o dan y penelin ac i ddarparu hyfforddiant neu ddysgu fel y bo'n briodol. | | | 2. Cyfarwyddwr Meddygol a Nyrsio y Grŵp i atgoffa pob aelod o'r staff yn Nhreforys o'r gofynion o ran rheoli heintiau gan gynnwys bod yn noeth o dan y penelin a golchi dwylo.<br><br>3. Sicrhau bod cofnodion hyfforddiant lleol yn gyson â chofnodion Hyfforddiant Gorfodol Cofnod Staff Electronig y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau cysondeb.<br><br>4. Uwchgyfeirio pryderon mewn perthynas â'r Cofnod Staff Electronig a'r broses o ddarparu a chael gafael ar ddata cyfredol ar berfformiad.<br><br>5. Neilltuo amser i'r staff gael hyfforddiant yn *Allocate* er mwyn helpu i olrhain a goruchwylio cynnydd | Meddygol a Nyrsio'r Grŵp<br><br>Pennaeth Nyrsio - Gofal Brys/ Dirprwy Bennaeth Nyrsio - Gofal Brys/Rheolwr y Gyfarwyddiaeth - Gofal Brys<br><br>Partner Adnoddau Dynol y Grŵp<br><br>Pennaeth Nyrsio - Gofal Brys/ Dirprwy Bennaeth Nyrsio - Gofal Brys/Rheolwr y Gyfarwyddiaeth - Gofal Brys<br><br>Arweinwyr Rheoli Heintiau yn yr | 1 Mai 2021<br><br>Erbyn 1 Mehefin 2021<br><br>Cwblhawyd Ebrill 2021<br><br>Cwblhawyd Mawrth 2021 ac yn parhau<br><br>Cwblhawyd Ebrill 2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 6. Ymweliadau adolygu cymheiriaid misol mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau yn y dyddiadur, a gynhelir gan Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau Safle Treforys Mae'r adroddiad diweddaraf ar gael isod<br><br>7. Sefydlu archwiliadau hylendid dwylo wythnosol – *gweler yr enghraifft isod*<br><br>8. Nodi Arweinydd Adrannol ar gyfer Hylendid Dwylo (mae pob Rôl Arweinydd Clinigol yn gyfrifol am Wella Diogelwch)<br><br>Cynnydd a wnaed gan yr Adran Achosion Brys o ran darparu ffigurau perfformiad cyfredol<br><br>% y Gydymffurfiaeth ag Archwiliad Rheoli Heintiau ar Hap =<br><br>Archwiliadau Hylendid Dwylo – cydymffurfiaeth â Phum Cam Sefydliad Iechyd y Byd = **100%**<br><br>Cynnydd a wnaed hyd yma: **-** | Adran Achosion Brys<br><br>Pennaeth Nyrsio – Gofal Brys/ Dirprwy Bennaeth Nyrsio – Gofal Brys<br><br>Pennaeth Nyrsio – Gofal Brys/ Dirprwy Bennaeth Nyrsio – Gofal Brys | Cwblhawyd Ebrill 2021<br><br>Cwblhawyd Ebrill 2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae pedwar hyfforddwr hylendid dwylo newydd wedi'u nodi ac mae cynllun hyfforddi wedi'i ddatblygu | | |
| 3 | Cwblhaodd y Nyrsys Atal a Rheoli Heintiau adnodd archwilio Rhagofalon Rheoli Heintiau Safonol ar 5 Chwefror 2021 ar gyfer yr adran achosion brys. Er y cafodd lefel uchel o gydymffurfiaeth ei nodi, ni roddwyd unrhyw gyd-destun, manylion na sylwadau ar wahân i'r mater a gyfeiriwyd i'r adran Ystadau.<br><br>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y rhoddir manylion i gadarnhau amser cwblhau'r archwiliad, yr ardaloedd a'r cyfarpar a archwiliwyd, nifer y staff yr arsylwyd arnynt, arferion da, unrhyw faterion a nodwyd a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion hynny. | Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi | **Cam Gweithredu:**<br>1. Y tîm rheoli heintiau i adolygu adnodd archwilio Rhagofalon Rheoli Heintiau Safonol er mwyn sicrhau y rhoddir cyd-destun manwl.<br><br>2. Datblygu Gweithdrefn Safonol Treforys i gefnogi'r broses o gwblhau a chyflwyno archwiliadau rheolaidd, er mwyn sicrhau y caiff canlyniadau eu cofnodi'n llawn ac y caiff camau gweithredu eu dogfennu hyd at eu cwblhau | Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol – Atal a Rheoli Heintiau<br><br>Pennaeth Ansawdd a Diogelwch y Grŵp | Erbyn 1 Mehefin 2021<br><br>Erbyn 1 Mehefin 2021 |
| 4 | Cawsom gopi o daenlen rheoli heintiau ar gyfer mis Ionawr a mis Chwefror 2021. Roedd y wybodaeth a roddwyd yn dangos bod yr adran yn cydymffurfio'n llwyr â'r gofynion o ran rheoli heintiau ym mis Ionawr 2021. Fodd bynnag, gostyngodd y | Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi | Mae'r mater a nodwyd yn yr adroddiad yn adlewyrchu mater dros dro ac nid yw'n gyson â pherfformiad blaenorol (gweler y tueddiadau a nodwyd uchod)<br><br>**Camau Gweithredu ar Unwaith:**<br>1. Camau gweithredu ar unwaith i wella glendid yr amgylchedd | Y Dirprwy Bennaeth Nyrsio – | Cwblhawyd Mawrth 2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | gyfradd gydymffurfio i 81% ym mis Chwefror 2021 yn sgil materion a nodwyd yn yr amgylchedd. Ni roddwyd unrhyw wybodaeth bellach i ddangos pa faterion a godwyd nac, yn wir, a gafodd unrhyw gamau unioni eu cymryd.<br><br>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob canlyniad ei ategu gan dystiolaeth a'r camau y bwriedir eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion sy'n codi. | | | Gwasanaethau Brys | |
| | | | 2. Nodwyd cyswllt Ystadau dynodedig ar gyfer yr Adran Achosion Brys | Fel uchod | Cwblhawyd Ebrill 2021 |
| | | | 3. Ailgyflwynwyd teithiau cerdded wythnosol gan y tîm Ystadau a sefydlwyd cofnod camau gweithredu i gefnogi camau unioni | Fel uchod | Cwblhawyd Ebrill 2021 |
| | | | 4. Mae trefniadau glanhau ychwanegol ar waith gan y Gwasanaeth Domestig - gyda dau aelod o staff ar gael 24/7 i gefnogi materion yn yr ardaloedd clinigol ac anghlinigol a sefydlwyd | Fel uchod | Cwblhawyd Ebrill 2021 |
| | | | 5. Nodwyd Arweinydd Clinigol Enwebedig ar gyfer gwasanaethau domestig i fynd i'r afael ag unrhyw faterion | Fel uchod | Cwblhawyd Ebrill 2021 |
| | | | 6. Sefydlu archwiliadau amgylcheddol wythnosol, i'w cynnal gan y Dirprwy Fetron | Fel uchod | Cwblhawyd Ebrill 2021 |
| | | | 7. Sefydlu teithiau cerdded wythnosol gyda'r Tîm Atal a Rheoli Heintiau a'r Dirprwy Fetron | Fel uchod | Cwblhawyd Ebrill 2021 |
| | | | Caiff cydymffurfiaeth â'r safonau | Y Dirprwy | Erbyn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | glendid cenedlaethol bellach ei chofnodi ar lefel y Bwrdd ECHO a Grŵp Ansawdd a Dioglewch ECHO.<br><br>Mae disgwyliad clir lle na chyrhaeddir y safonau, y caiff Cofnod Camau Gweithredu cyffredinol sy'n nodi'r canlyniadau, y risgiau ac unrhyw waith unioni sydd angen ei ddarparu fel mater o drefn bob mis at ddibenion sicrwydd a chymeradwyo. | Bennaeth Nyrsio - Gwasanaethau Brys | 1 Gorffennaf 2021 |
| 5 | Nododd archwiliad rheoli heintiau amgylcheddol ychwanegol, dyddiedig 12 Chwefror 2021, gyfres o faterion lle nad oedd yr adran achosion brys yn cydymffurfio â'r gofynion o ran rheoli heintiau neu lle roedd ond yn cydymffurfio'n rhannol â'r gofynion hynny. Nid oedd yr archwiliad yn nodi'r sgôr gydymffurfio gyffredinol nac yn dogfennu unrhyw gamau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio.<br><br>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff canlyniad archwiliadau eu | Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi | Gweler y camau gweithredu o dan Yr hyn sydd angen ei wella; 1, 3 a 4 uchod | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | dogfennu'n gywir ac yn llawn. | | | | |
| 6 | Cawsom dystiolaeth, dyddiedig 15 Ionawr 2021 a 12, 15 a 21 Chwefror 2021, a oedd yn dogfennu'r broses o asesu cleifion am friwiau pwyso a niwed i feinweoedd. Er bod y dystiolaeth ar 15 Ionawr a 15 a 21 Chwefror yn cadarnhau bod y staff yn cwblhau asesiadau Waterlow, dangosodd y dystiolaeth dyddiedig 12 Chwefror nad oedd y staff yn cwblhau'r asesiadau yn llawn.<br><br>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gofyniad i asesu cleifion am friwiau pwyso a niwed i feinweoedd a dogfennu canlyniad yr asesiad. | Safon 2.2 Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd | **Camau Gweithredu ar Unwaith:**<br>1. Cynhaliwyd Adnodd Dadansoddi Bylchau mewn Gwybodaeth yn yr Adran Achosion Brys.<br><br>Nod yr adnodd hwn oedd asesu gwybodaeth ac anghenion hyfforddi'r staff a datblygu rhaglen hyfforddi wedi'i theilwra'n benodol i anghenion yr Adran Achosion Brys. | Metron Gofal Brys/Nyrs Band 7 Enwebedig - Arweinydd Clinigol yr Adran Achosion Brys ar gyfer Hyfywedd Meinwe | Cwblhawyd Chwefror 2021 |
| | | | **Camau Pellach:**<br>2. Datblygu rhaglen hyfforddi pythefnos a'i rhoi ar waith. | Metron Gofal Brys/Nyrs Band 7 Enwebedig - Arweinydd Clinigol yr Adran Achosion Brys ar gyfer Hyfywedd Meinwe | Dechreuwyd Mawrth 2021 |
| | | | 3. Mae nyrs Hyfywedd Meinwe arbenigol yn darparu cymorth ychwanegol 7.5 awr yr wythnos i gefnogi'r staff. | Pennaeth Nyrsio - Gofal Brys | Dechreuwyd Mawrth 2021 |
| | | | 4. Lluniwyd siart lif newydd ar y broses gywir o gofnodi briwiau pwyso ar DATIX. | Pennaeth Nyrsio - Gofal Brys | Cwblhawyd Mawrth 2021 |
| | | | 5. Mae Arweinydd Clinigol Enwebedig ar gyfer Craffu ar Friwiau Pwyso ar waith | Cyfarwyddwr Nyrsio'r Grŵp | Cwblhawyd Ionawr 2021 |
| | | | 6. Mae panel craffu ar friwiau pwyso bob deufis ar waith i | Pennaeth Nyrsio - Gofal Brys | Dechreuwyd Chwefror |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | fynd i'r afael ag achosion hanesyddol a chyfredol<br><br>7. Mabwysiadu PURPOSE-T yn llawn a newid o ddefnyddio Sgôr Waterlow fel adnodd ar gyfer asesu a rheoli briwiau pwyso. | <br><br>Pennaeth Nyrsio – Gofal Brys | 2021<br><br>Erbyn 1 Awst 2021 |
| 7 | Fel rhan o Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau y GIG, dylai staff gweinyddol, clerigol a nyrsio gael adolygiad arfarnu perfformiad a datblygu blynyddol. Mae'r broses hon yn adolygu dysgu, anghenion datblygu a datblygiad cyflog staff. Dangosodd cofnodion gydymffuriaeth wael â'r gofyniad i gynnal adolygiad blynyddol ar gyfer staff yn y Bandiau canlynol:<br>• Band 7 – 50%<br>• Band 6 – 53%<br>• Band 5 – 68%<br>• Band 6/7 (Ymarferwyr Nyrsio Brys) – 33%.<br><br>Roedd 84% o'r staff Band 2 a Band 3 wedi cael eu hadolygiadau blynyddol. Dywedwyd wrthym nad | Safon 7.1 Y Gweithlu | Mae gallu'r Adran Achosion Brys i gynnal hyfforddiant wyneb yn wyneb, gan gynnwys adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygu, wedi'i gyfyngu yn ystod yr ymateb i COVID-19 mewn perthynas â phwysau gweithredol a gofynion o ran pellter cymdeithasol.<br><br>**Camau Gweithredu ar Unwaith:**<br>1. Datblygu cynllun adfer a'i roi ar waith, er mwyn deall nifer presennol yr adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygu sydd heb eu cynnal a darparu amserlen ar gyfer cyrraedd safon ofynnol o 85%<br><br>**Camau Gweithredu Pellach**<br>2. Mae dyddiadau adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygu ar waith ym mhob rhan o'r | Pennaeth Nyrsio – Gofal Brys/Dirprwy Bennaeth Nyrsio – Gofal Brys/Y Fetron ar gyfer Gofal Brys/Rheolwr y Gyfarwyddiaeth – Gofal Brys<br><br>Fel uchod | Cwblhawyd Ebrill 2021<br><br>Erbyn 1 Medi 2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | oedd arfarniadau blynyddol wedi'u cynnal yn sgil y pandemig. Fodd bynnag, cadarnhaodd y rheolwyr fod cynllun i drefnu adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygu â'r staff, yn ogystal â chynnig amser i ffwrdd yn lle oriau a weithiwyd y tu hwnt i oriau contract.<br><br>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y staff arfarniad amserol a chadarnhau sut mae'r adran achosion brys yn bwriadu gwella cydymffurfiaeth. | | Adran Achosion Brys - gyda dyddiad cyflawni arfaethedig<br><br>3. Diweddaru'r broses er mwyn sicrhau y caiff hyfforddiant lleol ei gofnodi ar y Cofnod Staff Electronig i sicrhau cysondeb a'r broses o gofnodi ar systemau'r Bwrdd Iechyd<br><br>4. Sefydlu proses ar gyfer amserlennu adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygu yn y dyfodol er mwyn sicrhau y caiff dyddiadau adolygu arfaethedig eu nodi'n glir ac y cynhelir cydymffurfiaeth hirdymor | Fel uchod<br><br>Fel uchod | Erbyn 1 Mehefin 2021<br><br>Erbyn 1 Mehefin 2021 |
| 8 | Dywedwyd wrthym fod gan yr adran 17 o swyddi gwag ar gyfer nyrs gofrestredig Band 5 ac un swydd wag ar gyfer nyrs gofrestredig Band 3, ac, o ganlyniad, mae'r adran yn defnyddio niferoedd sylweddol o staff nyrsio asiantaeth a banc, sef tua 49% o'r gweithlu (30% asiantaeth a 19% banc). Cadarnhaodd y rheolwyr eu bod yn ceisio defnyddio'r un nyrsys asiantaeth a banc er mwyn sicrhau parhad gofal, yn ogystal â darparu'r hyfforddiant angenrheidiol iddynt | Safon 7.1 Y Gweithlu | Mae datblygu cynllun cadarn ar gyfer y gweithlu yn flaenoriaeth i'r Grŵp Gwasanaethau Ysbytai<br><br>**Cam Gweithredu:**<br>1. Datblygu cynllun cadarn ar gyfer y gweithlu<br><br>**Cynnydd:**<br>Penodwyd i uwch-swyddi er mwyn cefnogi a chyflawni'r gwaith sydd ei angen i ddatblygu'r cynllun ar gyfer y gweithlu nyrsys yn yr Adran Achosion Brys o ran | Pennaeth Nyrsio - Gofal Brys/Rheolwr y Gyfarwyddiaeth - Gofal Brys | 1 Tachwedd 2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ar brofion pwynt gofal a PPE. Dywedodd y rheolwyr wrthym y bu rhywfaint o recriwtio llwyddiannus ers arolygiad diwethaf AGIC, a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2020, ond bod lefel uchel o swyddi gwag o hyd, gan olygu bod yr adran yn cyhoeddi hysbyseb recriwtio gylchol bob rhyw ddeufis am bedair nyrs gymwysedig. O ystyried lefel uchel y swyddi gwag ar gyfer nyrsys cofrestredig, mae angen sicrwydd ar AGIC fod gan y Bwrdd Iechyd gynllun cadarn ar waith ar gyfer y gweithlu, sy'n cydnabod yr angen i recriwtio a chadw nyrsys yn yr adran achosion brys. | | recriwtio a chadw. | | |
| 9 | Dangosodd tystiolaeth a roddwyd cyn ac yn ystod yr arolygiad gydymffurfiaeth wael â hyfforddiant gorfodol ac adrannol ar gyfer yr Adran Achosion Brys. Ni roddodd y lefelau cydymffurfio sicrwydd i AGIC fod y staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol.<br><br>Nodwyd hyn mewn llythyr i'r bwrdd iechyd yn gofyn am sicrwydd uniongyrchol. Mewn ymateb, cyflwynwyd cyfres newydd o | Safon 2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch<br><br>2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi<br><br>2.6 Rheoli Meddyginiaethau | **Camau Gweithredu ar Unwaith:**<br>1. Cynhaliwyd ymchwiliad i ganfod ffynhonnell y data anghywir a sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cael ei chyflwyno<br><br>Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad fod y data anghywir ar hyfforddiant gorfodol wedi deillio o wall dynol.<br><br>Mae hyn wedi nodi'r angen am un pwynt cyswllt er mwyn sicrhau llif data i mewn ac allan o'r | Cyfarwyddwyr y Grŵp/Pennaeth Ansawdd a Diogelwch y Grŵp | Cwblhawyd Mawrth 2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ffigurau hyfforddiant i AGIC. Fodd bynnag, ni esboniwyd pam roedd ffigurau hyfforddiant anghywir wedi'u cyflwyno cyn ac yn ystod yr arolygiad.<br><br>Mae angen esboniad ar AGIC ynghylch pam y cafodd y ffigurau anghywir eu cyflwyno mewn perthynas â hyfforddiant gorfodol ac adrannol. At hynny, mae angen sicrwydd ar AGIC fod rheolwyr y ward wedi'u hyfforddi'n ddigonol i gynnal, nodi ac adolygu cydymffurfiaeth staff â hyfforddiant gorfodol ac adrannol. | 2.7 Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed<br><br>3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol<br><br>7.1 Y Gweithlu | sefydliad.<br><br>**Cam Gweithredu:**<br>2. Datblygu Gweithdrefn Safonol y Grŵp Gwasanaethau Ysbytai er mwyn cefnogi'r gwaith o reoli prosesau archwilio allanol/mewnol, gan gynnwys cymeradwyo a chyflwyno tystiolaeth<br><br>**Dylai'r Weithdrefn Safonol gynnwys:**<br>• Cofrestru'r archwiliad yn lleol<br>• Enwebu Cyfarwyddwr Arweiniol y Grŵp<br>• Enwebu Arweinydd Gweithredol<br>• Y broses gymeradwyo<br>• Y broses gyflwyno<br>• Y broses ar gyfer gofyn am dystiolaeth ychwanegol | Pennaeth Ansawdd a Diogelwch y Grŵp | Erbyn 1 Gorffennaf 2021 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Mark Madams, Cyfarwyddwr Nyrsio Grŵp Gwasanaeth Treforys

Dyddiad: 29/04/2021